# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher : Miss H Roberts**


14/07/22

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

**GWISG YSGOL**

Wrth i ni ddod at ddiwedd y flwyddyn ysgol, mae'n siŵr y byddwch yn meddwl am fis Medi ac efallai 'n prynu gwisg ysgol Newydd. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i'ch atgoffa o'n disgwyliadau o ran gwisg ysgol.

Anogwn y disgyblion i wisgo gwisg ysgol bob dydd er mwyn ennyn parch ac agwedd cadarnhaol tuag at yr ysgol. Mae ein gwisg ysgol yn symbol gweledol o'n balchder yn y gymuned ysgol yr ydym i gyd yn perthyn iddi. Gofynnwn yn garedig i rieni a disgyblion gadw at ein cod gwisg ysgol.

Gwisg Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yw:
• crys polo coch, gwyn neu lwyd
• crys chwys coch neu gardigan
• trowsus, sgert neu siorts llwyd
• esgidiau du priodol.

Gofynnwn i ddisgyblion ddod i'r ysgol yn eu gwisg chwaraeon ar eu diwrnodau ymarfer corff penodedig. Byddwn yn eich hysbysu ym mis Medi amserlen gwersi chwaraeon pob dosbarth.

Ein gwisg addysg gorfforol yw:
• crys-t coch
• siorts du, legins neu drowsus loncian.
• trainers neu daps.

Mae croeso i ddisgyblion newid o drowsus i siorts os oes angen.
Ni ddylid gwisgo gemwaith yn yr ysgol am resymau iechyd a diogelwch.

Nid yw jîns neu ddillad a chanddynt sloganau neu logos masnachol arnynt yn dderbyniol fel gwisg ysgol. Fe fydd sawl cyfle yn ystod y flwyddyn i wisgo'n hamddenol ar ddiwrnodau pwrpasol (e.e. "Plant mewn Angen").

Anogwn chi i ysgrifennu enw eich plentyn yn glir ar ei ddillad ac eiddo. Oni bai bod hyn yn cael ei wneud, ni fyddwn yn gallu adnabod perchnogion unrhyw eiddo coll!

Diolch i chi am eich cefnogaeth. Mwynhewch y gwyliau haf ac edrychwn ymlaen at eich gweld ym mis Medi.

Cofion cynnes,

*H Roberts*
Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher

*Dear parent / carer,*

***SCHOOL UNIFORM***

*As we come to the end of the school year, you'll no doubt be thinking about September and maybe purchasing new uniform. I would like to take this opportunity of reminding you of our school uniform expectations.*

*We encourage the pupils to wear uniform every day in order to gain respect and positive attitudes towards the school. Our uniform is a visual symbol of our pride in the school community which we all belong. We kindly ask that parents and pupils adhere to our school uniform code.*

*Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn's uniform is*

- *a red, white or grey polo shirt*
- *red sweatshirt or cardigan*
- *grey trousers, skirt or shorts*
- *appropriate black footwear.*

*Pupils are required to come to school in their sports kit on their allocated PE days. We will notify you in September of your child's PE day.*

*Our PE kit is*

- *a red t-shirt*
- *black shorts, leggings or jogging trousers.*
- *Trainers or plimsoles*

*Pupils are welcome to change from trousers into shorts if they require.*
*No jewellery is to be worn to school for health and safety reasons.*

*We urge you to write your child's name clearly on his/her clothes and possessions. Unless this is done, we will not be able to identify the owners of any lost property!*

*Denim jeans and clothes bearing commercial slogans and logos are not acceptable as school uniform. There are however several opportunities during the year to "dress down" on designated days (For example, "Children in Need").*

*Thank you for your support. Enjoy the summer holidays and we look forward to seeing you in September.*

*Kind regards,*

*H Roberts*
Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher*